**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Llun, 13 Mawrth 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd T Williams |

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd S Powderhill

## 36 DATGAN BUDDIANT

**PENDERFYNWYD -** Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant sy'n rhagfarnu canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Ellis mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda, “Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd”.

## 37 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 38 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2023 yn rhai cywir.

## 39 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O

**DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 23.01.23 - 26.02.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 23 Ionawr 2023 a 26 Chwefror 2023 i'r Aelodau·

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**40 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**41 TRAFOD Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:**

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr RR ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

**42 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 23.01.23 - 26.02.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 23 Ionawr 2023 a 26 Chwefror 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**43 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 23.01.23 - 26.02.23**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 23 Ionawr 2023 i 26 Chwefror 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.47pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**